COFNOD PENDERFYNIAD CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAU A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 22 CHWEFROR 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd R M Granville – Chairperson

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | S Easterbrook | D T Harrison | D M Hughes |
| M R John | M J Kearn | A Wathan | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | R J Collins | H Griffiths | S J Griffiths |
| M L Hughes | W J Kendall | J E Pratt | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorwyr J Llewellyn-Hopkins a Chris Davies

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygiadau ac Adeiladu |
| Gillian Newson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cefnogi Cynllunio |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu |
| Robert Morgan | Uwch Reolwr Datblygu Cynllunio |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Oscar Roberts | Prentis Cabinet a Phwyllgor |

**2. Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Datganodd Y Cynghorydd S Easterbrook ddiddordeb personol yn eitem 9 ar yr Agenda fel Aelod dros y Ward lleol ac aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

**3. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu â'r dyddiad 11/1/ 2022 fel cofnod gwir a manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

**4. Siaradwyr Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus yng nghyfarfod heddiw. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

**5. Taflen Ddiwygiadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| | Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

**6. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

**7. P/22/692/FUL 13 Reynallt Place, Porthcawl CF36 3DR**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Garej sengl newydd yn yr ardd ar yr ochr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

**8. P/23/473/RLX Cwm Ogwr Uchaf, Rhwng Blaengwynfi, Nantymoel a Blaengarw ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot CF23 8RD**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: (1) Ynghylch y cais uchod, ei bod yn ofynnol i'r ymgeisydd fod mewn cytundeb S106 neu'n darparu ymgymeriad unochrog diwygiedig mewn ffurflen er mwyn sicrhau bod Cynllun Rheoli Gwella Bioamrywiaeth (BEMP), cyn i'r cyfnod datblygu ddechrau. Byddai'r BEMP yn cynnwys menter i reoli gwaddod naturiol a gwaith creu cynefinoedd ehangach yng Nghwm Garw Uchaf, a gwaith cadwraeth Llygoden Ddŵr.<br><br>Cynnig<br><br>Amrywio amod 2 o PEDW Ref DNS/3213662 (P/20/893/DNS) i gynyddu diamedr rotor y tyrbinau gwynt arfaethedig o 105m i 117m - bydd maint uchder blaen y tyrbinau gwynt yn parhau fel y cytunwyd arnynt.<br><br>(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael pŵer dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad penderfyniad yn nodi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn, unwaith mae'r ymgeisydd wedi ymrwymo â'r Cytundeb Adran 106 uchod y syniwyd amdano'n flaenorol, neu wedi darparu ymgymeriad unochrog diwygiedig mewn ffurf sy'n dderbyniol i'r Cyngor, yn ddibynnol ar yr Amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.<br><br>Yn ddibynnol ar yr Amodau ychwanegol canlynol yn cael eu hychwanegu i'r caniatâd cynllunio:<br><br>40. Cyn dechrau ar waith adeiladu unrhyw eneradur tyrbin gwynt, neu ddosbarthu unrhyw offer adeiladu neu strwythur(au) amserol 50 metr neu fwy mewn uchder (uwchben lefel y ddaear) bydd y datblygwr yn cadw at gynllun y cytunwyd arno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ar y cyd gyda chynllun goleuo awyrennau'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n diffinio sut y bydd y datblygiad yn cael ei oleuo trwy gydol ei oes er mwyn cynnal gofynion diogelwch dinesig a milwrol fel sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | angenrheidiol o ran diogelwch awyrennau gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd hyn yn nodi:<br><br>a. manylion unrhyw offer adeiladu a strwythurau amserol gyda chyfanswm uchder o 50 metr neu fwy (uwchben lefel y ddaear) fydd yn cael eu dosbarthu yn ystod gwaith adeiladu generaduron tyrbin gwynt a manylion am unrhyw oleuo rhybuddio fydd yn rhan ohonynt; a<br><br>b. lleoliadau ac uchder yr holl eneraduron tyrbinau gwynt ac unrhyw fastiau anemometreg sy'n rhan o'r datblygiad, gan adnabod y rhai fydd gyda goleuadau rhybudd yn rhan ohonynt a chan adnabod safle'r goleuadau ar y generaduron tyrbinau gwynt; y math(au) o oleuadau fydd yn cael eu gosod a manyleb(au) perfformiad y math(au) o oleuo fydd yn cael ei ddefnyddio.<br><br>Gan hynny, mae'n rhaid i'r datblygwr arddangos goleuadau fel y manylir arnynt yn y cynllun goleuo awyrennau sydd wedi'i gymeradwyo. Bydd y goleuo sydd wedi cael ei osod yn parhau i fod yn weithredol am oes y datblygiad.<br><br>Rheswm: Er mwyn cynnal diogelwch awyrennau<br><br>41. Mae'n rhaid i ymgymerwr roi gwybod i'r Weinyddiaeth Amddiffyn o leiaf 14 diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau, a hynny yn ysgrifenedig, am yr wybodaeth ganlynol:<br><br>a. dyddiad dechrau'r gwaith codi'r generaduron tyrbin gwynt.<br>b. mwyafswm uchder unrhyw offer adeiladu sydd i gael ei ddefnyddio wrth godi'r tyrbinau gwynt.<br>c. dyddiad y bydd unrhyw eneradur tyrbin gwynt yn cael ei droi ymlaen i weithio.<br>ch. lledred a hydred a mwyafswm uchder pob generadur tyrbin gwynt, ac unrhyw fast(iau) anemomedr. |

| | |
|---|---|
| | Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Weinyddiaeth Amddiffyn am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â'r gofynion hyn ac er mwyn cwblhau adeiladu'r datblygiad.<br><br>Rheswm: Er mwyn cynnal diogelwch awyrennau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

## 9. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: (1) Y dylid nodi'r ddwy apêl a dderbyniwyd ers i adroddiad ar Apeliadau gael ei gyflwyno i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau, fel y manylir arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.<br><br>(2) Bod yr Arolygwr a Apwyntiwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu y dylid DIDDYMU'r Apêl ganlynol (cyfeirir at Atodiad A yr adroddiad)<br><br>Apêl Rhif. CAS-03071-C2M9Y2 (2000) – Pwnc yr Apêl - Cadw'r drysau Ffrengig a'r balconi fel y maent wedi eu hadeiladu: 28 Sanderling Way, Porthcawl. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

## 10. Adroddiad Diweddaru i Aelodau ynghylch cais sgan Mulberry Homes Ltd. - Atd. Rhif P/21/201/FUL - Tir i'r cefn o Waunscil Avenue, yn ymestyn at gefn Stryd y Morfa, Pen-y-bont ar Ogwr - Codi 70 o breswylfeydd, Llwybr Cymunedol a man chwarae cysylltiedig a lle agored i'r cyhoedd (sydd bellach yn destun Apêl)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau er mwyn diweddaru'r Pwyllgor ar Apêl |

| | |
|---|---|
| | diweddar yn erbyn penderfyniad oedd heb ei wneud ar gyfer datblygiad ardal breswyl ar dir y tu ôl i Waunscil Avenue, Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Wedi i'r Aelodau roi ystyriaeth i'r adroddiad,<br><br>PENDERFYNWYD: (1) Bod Aelodau yn nodi penderfyniad y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygiadau i wrthod Cais P/21/201/FUL oherwydd y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ac yn Atodiad A (i'r adroddiad) atodedig.<br>- (2) Bod Swyddogion yn adrodd ar ganlyniad yr Apêl i gyfarfod Pwyllgor Rheoli Datblygiadau yn y dyfodol, fel rhan o'r eitem Agenda Apeliadau safonol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

## 11. Cofnod Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau sy’n amlinellu'r sesiynau hyfforddiant sydd ar y gweill ar gyfer Aelodau fel y manylir yn yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

## 12. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Chwefror 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon od gwelwch yn dda:

Daeth y cyfarfod i ben ar 10:50.